# y dinesydd

Tachwedd/Rhagfyr 2003 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 285


# DAU GYFLE I DDATHLU BLAS DWYIEITHOG

Am yr eildro o fewn dau fis, mae brand Blas wedi cyrraedd y brig yn un o gystadlaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Fis Gorffennaf, rhoddwyd clod arbennig i'r brand yn seremoni gwobrau dylunio dwyieithog y Bwrdd a ddyluniwyd gan gwmni Citigate Lloyd Northover. Eu caffi yng nghanol dinas Caerdydd fu'n llwyddiannus yng nghystadleuaeth bwydlen ddwyieithog y mis y tro hwn. Meddai Rhodri Williams, Cadeirydd y Bwrdd:

"Rwy'n hynod falch i longyfarch Blas ar eu llwyddiant. Mae'r ffaith eu bod wedi ennill cystadleuaeth bwydlen ddwyieithog y mis mor agos at eu llwyddiant gyda'r gwobrau dylunio yn dangos eu hymrwymiad i hybu'r ddwy iaith yn eu gwaith o farchnata bwyd a chynnyrch Cymreig. Fel eu brand, mae'u bwydlen yn syml, yn ddeniadol ac effeithiol."

Ychwanegodd Wynfford James o Gyfarwyddiaeth Fwyd Awdurdod Datblygu Cymru:

"Rwy'n falch iawn ein bod yn cael cydnabyddiaeth am ein gwaith ar y cyd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio, gyda Citigate ar y brand Gwir Flas, a chyda Cyngor Caerdydd yn Blas. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o naws lle ac o'r profiad cyflawn o fwyta yng Nghymru."

Bwriad cystadleuaeth bwydlen ddwyieithog y mis yw gwobrwyo'r bwyty sydd â'r fwydlen ddwyieithog (Cymraeg a



Saesneg) orau bob mis, ac mae'r bwyty llwyddiannus yn derbyn tystysgrif hardd wedi'i fframio, tra fod enwebydd y fwydlen lwyddiannus yn derbyn magnwm o siampên, drwy garedigrwydd cwmni gwerthwyr gwin Tanners. Enwebwyd bwydlen Blas gan Matthew Jones o Gaerdydd.

Bydd enillydd bwydlen orau'r flwyddyn yn ennill chwaraewr DVD arbennig - gwobr gan gwmni Fayrefield Foods, gwneuthurwyr Caws Colliers, sy'n cael ei werthu mewn archfarchnadoedd dros Gymru a thu hwnt.

Mae'r Llinell Gyswllt â'r Gymraeg yn cyfieithu bwydlenni yn rhad ac am ddim i unrhyw un sy'n dymuno cynnig gwasanaeth dwyieithog. Am fanylion, cysylltwch â'r Llinell ar 0845 607 6070.

Mae cymryd rhan yn y cynllun yn hawdd - gallwch naill ai anfon enw a chyfeiriad y bwyty ar e-bost at bwydlen@bwrdd-yr-iaith.org.uk, neu gellir anfon y ffurflen enwebu ar gefn y daflen at Fwrdd yr Iaith Gymraeg, Rhadbost CF3248, Caerdydd CF10 1GZ. Gellir ffonio Uned Farchnata'r Bwrdd ar 029 2087 8000 am ragor o fanylion. Gellir cael rhagor o fanylion am gynllun gwobrau dylunio dwyieithog y Bwrdd drwy anfon e-bost at gwobrau@bwrdd-yr-iaith.gov.uk.



Dr Hefin Jones yn arwisgo llywydd newydd Cymrodorion Caerdydd Mrs Falmai Griffiths, Rhiwbina

# Y Dinesydd

**Tachwedd/Rhagfyr, Rhif 286.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd,
Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
**Hywel Jones**

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
**W.J. Jones**

### NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Ionawr/Chwefror 2003 erbyn 9 Ionawr at:**
W. J. Jones, 46 Crystalwood Road, Y Mynydd Bychan, Caerdydd CF14 4HW (Ffôn: 029-2065-3315; e-bost: william.jones8@ntlworld.com).

**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ Ffôn: 029-2062-8754;
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

### CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James. (Gweler uchod.)

### DERBYN A DOSBARTHU COPÏAU

Os oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch dosbarthu'r Dinesydd (er enghraifft, os ydych yn cael anhawster i gael gafael ar gopi neu os ydych yn barod i fod yn ddosbarthwr) neu os ydych am dderbyn *Y Dinesydd* drwy'r post, cysylltwch â CERI MORGAN, d/o Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com

### HYSBYSEBU

Mae 3,000 o gopïau o bob rhifyn o'r *Dinesydd* yn cael eu dosbarthu. Mae'n gyfrwng hwylus i gyrraedd cyfran uchel o Gymry Cymraeg y brifddinas.

Os ydych am hysbysebu yn *Y Dinesydd*, cysylltwch â MENNA GWYN, 41 Wingfield Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd Ffôn: 029-2041-8270; e-bost: menna@gwyn41.freeserve.co.uk

### CYNORTHWYO'N OLYGYDDOL

Gwaith tîm o wirfoddolwyr yw cynhyrchu a dosbarthu'r *Dinesydd*. Rydym bob amser yn croesawu pobl newydd i ymuno â'r tîm! Os ydych yn barod i gynorthwyo mewn unrhyw fodd - trwy gasglu newyddion, teipio erthyglau, golygu rhifyn, etc. - yna cysylltwch â Chadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*. (Gweler uchod.)

### CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad *Y Dinesydd* yn dibynnu ar roddion gan unigolion a chymdeithasau. Mae ein Trysorydd, CERI MORGAN, yn croesawu pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch ato dan ofal Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .


**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 44** **Tach./Rhag. 2003**



**Ar Draws**

1. Epil yn plannu yn Lloegr (5)
4. Gorchest yn dawel yn dilyn anghyfiawnder (4)
8. Cysgodd e yn anesmwyth, fel Nigella efallai? (7)
9. All gwe rywfodd iachau? (5)
10. 'Rwy'n cymryd y daw'r ynni ar yn ail (4)
11. A ddaw y caws egr o'r ddinas hon? (8)
13. A yw'r A.C. blêr am fân siarad? (6)
14. 'Arglwydd grasol, dyro d'Ysbryd
    Dysg i'm _____, "Abba, Dad"' (I.J.) (6)
16. Dai yn cefnu ar y gras drylliog a thor priodas (8)
17. Pistyll a siglwyd ar yn ail (4)
20. O wae Ur daw tiroedd (5)
21. 'Cans o'th law y daw bob dydd
    Ein lluniaeth a'n _______' (W.D.W) (7)
22. Galw yn wyllt am rywbeth gwlyb (4)
23. Rhoi ŷd mewn amgylchiadau rhyfedd yn ddiysmwth (5)

**I Lawr**

1. Yn dawel mae twyll heb ddechrau yn creu daliwr (5)
2. 'Rwyf wedi alaru ers talm ___ ___ ___
   Y Cymry, bondigrybwyll, yn cadw sŵn.' (THPW) (2,5,4)
3. Meddalu ym mreichiau sant o Ddinmael (4)
4. Ffeindio cneuen mewn pincas tanddaearol (6)
5. Mae gwarth yn drysu y ffordd y'ch cadwyd (8)
6. 'Mae'r hen ____ ____ gynt,
   Ynghrog ar gangau'r helyg draw (E.E.) (7,5)
7. Twba yn dangos gorchudd i'r cern (6)
12. Mae argoed du yn gallu gwneud un yn brudd (8)
13. 'Er __ ydyw'r gwyntoedd
    A chedyrn donnau'r môr,
    Doethineb ydyw'r Llywydd
    A'i enw'n gadarn Iôr (A.G.) (6)
15. Cael naw call yn gymorth (6)
18. Cwrdd a Dina o gwmpas diwedd Tachwedd fyddai'n ddymunol (5)
19. Llanc yn dechrau gwerthfawrogi wyneb annwyl Sioned (4)

**Croesair Rhif 43**

**Ar draws:** 1. Braint; 4. Ysgwyd; 7. Cysylltiad; 9. Galw; 10. Sain; 11. Ofn; 12. Dieithr; 14. Cysgod; 16. Orissa; 18. Cennad; 20. Gen; 21. Dwed; 23. Cadi; 24. Bras y coed; 25. Neilltu; 26. Llefain. **I lawr:** 1. Basged; 2. I fyw; 3. Trysor; 4. Ystanc; 5. Gwas; 6. Dannod; 7. Claerineb; 8. Datganiad; 13. Thus; 15. Y lle; 16. Oedran; a7. Agosáu; 18. Cnocell; 19. Deilen; 22. Dryll; 23. Celf.

Derbyniwyd 5 ymgais cyn diwedd mis Hydref a 4 ohonynt yn gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Gwenda Hopkins, Llanisien. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Rhiannon Evas a Buddug Roberts o'r Eglwys Newydd, a Huana Simpson o'r Bontfaen.

**Cystadleuaeth Tachwedd/Rhagfyr** Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 9 Ionawr 2004.

# Apêl Gwilym yn '*Y Dinesydd*'

Bu'r ymateb i'r Apêl arbennig yn '*Y Dinesydd*' yn galonogol iawn a daeth £700 i law o ganlyniad. Diolch o galon i'r canlynol am eu cefnogaeth ymarferol i bapur bro hynaf Cymru -

Gwyneth Griffiths, Huw Ethall, Enyd Evans, Mary G. Lewis, Delwyn Tibbott, James Wiegold, E. Mathias, Gwilym Roberts, Linda Moran, Huw Roberts, B. Vaughan Roderick, John Rhys, Gareth a Rosalind Williams, Paul Jeffries, Huw ac Efa Jones, Nell Lloyd Jones, John a Myfi Coslett, Gwynedd Pierce, Glenys Rowlands, Beti Owen, Anne Innes, Bill Jones, Mary Wiliam, E.M. Lewis, Gerwyn a Non Davies, Cledan Mears, Meic a Ruth Stephens, Howard Potter, N. Boore, Heulwen Jones, Eifion Hopwood, Phil ac Angharad Ellis, Arwel Owen, W.L.Jones, Elin Prydderch, R. Elwyn Hughes, R. Alun Evans, Sally Davies, Colin Morgan, Huana Simpson, Ann Brain.

Cafwyd cefnogaeth ymarferol hefyd gan y cyrff canlynol a diolch iddynt hwythau am gofio am ein cronfa. Daeth £795 i law ganddynt hwy -
Ysgol Gyfun Glantaf, Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina, Rhieni dros Addysg Gymraeg, Bro Morgannwg, Ysgol y Mynydd Bychan, Côr Merched Canna, MYM, Cronfa Goffa Gwyn Daniel, Clwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd (CRIC), Merched y Wawr Caerdydd, Cylch Llyfryddol Caerdydd, Ysgol Pen y Garth, Cymrodorion Caerdydd, Cylch Meithrin Nant Lleucu, Cymdeithas Rieni Ysgol Bro Morgannwg, Eglwys y Tabernacl Caerdydd, Cymrodorion y Barri.

### Llongyfarchiadau

- i Iwan Jones Llanishen ar ddathlu ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed ym mis Hydref.

- i Teleri Davies gynt o Fethlehem, Sir Gaerfyrddin ar ei swydd newydd gyda Chwmni Cyfreithiol Dolmans yng Nghaerdydd. Fe'i haddysgwyd yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth a sefydlodd Aelwyd CF1 yng Nghaerdydd a fu'n llwyddiannus mewn nifer o gystadlaethau yn Eisteddfod Meifod.

- i John Lloyd Jones gynt o Dregaron ar ei benodiad fel Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus HSBC yng Nghanolfan Reoli Ranbarthol y Banc yng Nghaerdydd.

- i Angharad Evans a James Gregory ar eu priodas yng nghapel Minny Street yn ddiweddar. Dymuniadau gorau iddynt yn eu bywyd newydd yn Vancouver.

- i Nia a Mark Owen, Parc Fictoria ar enedigaeth Iwan Daniel, brawd bach i Huw.

### Cydymdeimlwn

- â Marie Lewis a'r teulu ar farwolaeth ei gŵr Arnold Lewis, cyn-Bennaeth Cerddoriaeth BBC Cymru ar 26 Hydref yn 75 oed. Roedd yr angladd i'r teulu yn unig.

- â Hannah Tanhai a'i theulu ym Mharc y Rhath ar farwolaeth annhymig eu mab Luke yn dair ar ddeg oed wedi damwain. Bu'r angladd yn Eglwys Andreas Sant yn Wellfield Road ar y 16eg Hydref ac yn dilyn ym mynwent Cathays.

- â Gwenhwyfar Jones a'r teulu yn Rhiwbeina ar farwolaeth ei gŵr Haydn Jones ar 26 Hydref ar ôl cystudd byr. Bu'n aelod o Gôr Hamdden Caerdydd. Cynhaliwyd yr angladd ar 31 Hydref yng Nghapel Minny Street ac yn dilyn yn yr Amlosgfa ym Mryn Drain.

### Cofio Joseph Parry

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu yn Eglwys y Crwys ar bnawn Sul 2 Tachwedd i goffáu can mlwyddiant marw y cerddor Dr Joseph Parry. Yr arweinydd oedd Dr Dulais Rhys, Caerfyrddin a chanwyd eitemau yn ystod y Gymanfa gan Gôr Hamdden Caerdydd dan arweiniad Eilonwy Jones.

### Synagog Newydd

Mae Iddewon Caerdydd wedi agor Synagog newydd ar gost o £850,000 yng Nghyncoed yn lle'r hen synagog ym Mhenylan. Mae'r synagog newydd yn llai o faint na'r hen un ac mae lle i 90 o ddynion ac 80 o wragedd i eistedd yn y synagog hwn.

### Darlith a chinio

Daeth dros gant o bobl ynghyd yng Nghlwb Golff Radur ar nos Sadwrn, 18 Hydref, dan nawdd Cronfa Glyndwr i fwynhau cinio tri chwrs a gwrando ar anerchiad gan yr Athro Hywel Teifi Edwards ar y testun 'Ffiniau'r Iaith'. Sefydlwyd Cronfa Glyndwr er mwyn hybu addysg Gymraeg gan y diweddar Trefor a Gwyneth Morgan nôl yn 1963. Gweinyddir y Gronfa gan nifer o ymddiriedolwyr a gwahoddir cyfraniadau tuag at y Gronfa i barhau'r gwaith o estyn cymorth lle bo angen i hybu addysg Gymraeg. Gwnewch eich sieciau yn daladwy i Gronfa Glyndwr a'u hanfon at y Trysorydd, Margaret Griffiths, Llanddwyn, 80, Bryn Siriol, Tŷ Isaf, Caerffili, CF83 2AJ.

Le gallois
Y cymro

6-8 Romilly Crescent, Canton,
Caerdydd CF11 9NR
Ffôn: 02920 341264 Ffacs: 02920 237911
info@legallois-ycymro.com

*Dewch i flasu bwyd a gwin wedi ei baratoi a'i weini gan y teulu Jones a Dupuy*

Ewch am dro i weld y wledd ar ein safle:
www.legallois-ycymro.com

# Eisteddfod
GENEDLAETHOL CYMRU

**NEWYDDION AM YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL**

Gydag Eisteddfod Maldwyn a'r Gororau yn parhau yn y cof, mae amryw eisoes yn edrych ymlaen tuag at y dyfodol. Ac nid sôn yr ydwyf am yr Eisteddfod y flwyddyn nesaf a gynhelir fel y gwyddoch, yng ngerddi ysblennydd Tŷ Tredegar ar gyrion dinas Casnewydd, ond sôn am y posibilrwydd o gynnal y brifwyl yn ein prifddinas yn y flwyddyn 2008. Eisoes mae swyddogion yr Eisteddfod Genedlaethol a swyddogion Cyngor Dinas a Sir Caerdydd wedi bod yn trafod ac wedi cychwyn ar y broses o baratoi ar gyfer yr ŵyl yn 2008.

Er mwyn sicrhau cartref i'r Eisteddfod Genedlaethol rhaid wrth dair elfen - sef cefnogaeth ariannol ac ymarferol yr awdurdod, safle addas a chefnogaeth y bobl leol.

Rydym eisoes wedi derbyn addewid o gefnogaeth y Cyngor ac yr ydym yn hyderus bod safle addas ar ein cyfer a hynny oddi fewn i'r brifddinas ei hun. Bellach mae angen i ni symud ymlaen at y drydedd elfen, sef cefnogaeth y bobl leol a'u barn parthed croesawu'r brifwyl i Gaerdydd. Yn y flwyddyn newydd, fe fyddwn yn trefnu cyfarfod cyhoeddus er mwyn trafod y posibilrwydd o gynnal yr ŵyl yng Nghaerdydd. Os ydych yn gefnogol i'r syniad ac yn awyddus i dderbyn gwybodaeth am y cyfarfod cyhoeddus ac i fod yn rhan o'r trefniadau ar gyfer 2008, tybed a fyddai modd i chi gysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn yr wybodaeth berthnasol.

Gan edrych ychydig yn nes na 2008, mae Côr Eisteddfod Genedlaethol 2004 ar gyfer Eisteddfod Casnewydd a'r Cylch bellach wedi'i sefydlu, ac mae amryw o ochrau Caerdydd eisoes wedi ymaelodi. Os oes gennych ddiddordeb ymaelodi, cynhelir yr ymarferion bob nos Iau yn Neuadd Griffin yr ysgol isaf, Ysgol Gyfun Basaleg, Basaleg am 7.30 o'r gloch.

Ac wrth gwrs, mae'r un peth yn wir am bob agwedd o'r Eisteddfod yng Nghasnewydd. Os oes gennych ddiddordeb i gynorthwyo y criw bach gweithgar sydd wedi bod wrthi'n ddyfal ers sawl blwyddyn yn paratoi ar gyfer yr ŵyl yn 2004, yna cysylltwch â'r swyddfa. Rwy'n siwr y croesawir pob math o gymorth yn enwedig yn ystod wythnos yr Eisteddfod ei hun.

Swyddfa'r Eisteddfod, 33 Stryd y Bont, Casnewydd NP20 4BH
0845 120 9555 de@eiseddfod.org.uk www.eisteddfod.org.uk


# GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni?
Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones


Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd

07974 80 30 89

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddaru systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch


## Y DAITH I UFFERN




Mae Gwasg Carreg Gwalch newydd gyhoeddi nofel gyntaf dyn o Gaerdydd sy'n 52 oed.

Martin Huws yw awdur *Dim Niwed*, nofel am Elsie, menyw yn gweithio mewn siop garpedi sy'n mynd yn gaeth i dabledi ac yn llithro i bwll anobaith. Yn rhan olaf y stori gwelwn hi'n dringo o'r iselder erchyll ac yn llwyddo i roi pwrpas i'w bywyd. Ond beth yw'r pris y mae'n gorfod ei dalu?

"Dyma nofel uchelgeisiol sydd yn herio'r darllenydd o'r dechrau," meddai'r beirniad a'r nofelydd Marion Eames.

Dywedodd fod yr arddull a'r strwythur yn adlewyrchu cyflwr meddwl Elsie, arddull bytiog a thameidiog yn dilyn llif yr ymennydd.

"Mae hon yn nofel bwerus sydd yn ein siglo ar brydiau ac mae cynildeb yr ysgrifennu'n awgrymu llawer."

Bu Martin yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Bryntaf cyn mynd i Ysgol Uwchradd Cathays. Bu'n weithiwr dur, yn swyddog clerigol ac yn ofalwr shifft. Wedyn bu'n is-olygydd ar y Western Mail, yn newyddiadurwr ar Y Byd ar Bedwar a Week In Week Out, gan ennill gwobrau Cymreig a Phrydeinig. Fe yw Uwchnewyddiadurwr Newyddion Cymru'r Byd, gwasanaeth arlein BBC Cymru.

Mae'n byw yn Ffynnon Taf gyda'i wraig Nest a'u merch Carys ac yn ohebydd papur bro Tafod Elai. Eisoes mae wedi cyhoeddi llyfryn dwyieithog am hanes Caerdydd a chyfrol o straeon byrion, Sgrech Rhyfel.

Bydd hon yn anrheg ddelfrydol i'r Nadolig.

*Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:*
*Martin Huws, 107 Heol Caerdydd, Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf, CF15 7PN. Y rhif ffôn yw 029 20 811413.*

## Hanes y tân yn Tabernacl

Bydd pawb ohonoch wedi clywed bellach am ein pryderon yn y capel. Bu i'r tan gychwyn yn yr ystafell ar yr ochr dde i'r cyntedd, ac mae popeth a oedd yn yr ystafell honno wedi ei ddifrodi'n llwyr. Mae mochdra'r dwr a'r mwg wedi gwneud llanast yn y cyntedd, y mwg wedi mynd i fewn i'r cysegr a gwres y mwg wedi difrodi pob arwynebedd. Bydd angen golchi ac ail baentio pob wal ac fe fydd angen glanhau a rhoi farnais ar bob darn o bren. Mae bwrdd y cymun wedi dioddef hefyd, ond yn ôl yr arbenigwyr, fe ellir adfer y rhan fwyaf i'w cyflwr gwreiddiol. Fe gymer y gwaith hyn rai misoedd ac yn y cyfamser byddwn yn defnyddio festri'r capel.

Bu eglwysi eraill yn y ddinas yn garedig iawn yn cynnig defnydd o'u hadeiladau ac fe lifodd llu o ddymuniadau da o gyfeiriadau eraill. Mae pobl wedi bod yn galw heibio'r capel ac yn rhannu atgfion am eu cysylltiad hwy gyda'r adeilad. Difyr iawn.

Ond, fel y dywedodd Denzil wrth y gynulleidfa yn y capel ar y Sul cynta wedi'r anffawd, rhaid cofio yn y pendraw taw yr Eglwys ei hun yw'r peth pwysicaf, nid yr adeilad.

# Newyddion o'r Eglwysi

## Minny Street

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â theuluoedd a chyfeillion **Miss Hannah (Nina) Alexander** a **Mr Haydn Jones** yn eu profedigaeth. Cofiwn yn annwyl iawn am gyfraniad y ddau i'r Eglwys.

· Llongyfarchiadau calonnog i Bethan a Toby Stiles ar enedigaeth **Amy Ffion** – wyres fach arall i Aerona Warrington.

· Roedd Sul cyntaf mis Hydref yn Sul arbennig. Blwyddyn gyfan wedi mynd heibio dan arweiniad Owain Llyr; cyfle i groesawu myfyrwyr i'n plith – rhai yn dychwelyd wedi gwyliau'r haf ac eraill yn cychwyn ar bennod newydd yn y brif ddinas; cyfle i bawb ailgysegru ei hunain i waith yr Eglwys; ac yn yr oedfa Gymun nos Sul, croesawu aelod newydd, Hywel Gwynfryn, i'n plith.

· Bu plant a ieuenctid yr Eglwys yn prysur drefnu Noson Goffi a Bric-a-bric er budd ein helusen am eleni – "Salaam & Shalom" : ymgyrch ar y cyd rhwng Undeb yr Annibynwyr a Chymorth Cristnogol. Diolch i ddiwydrwydd y trefnwyr a chefnogaeth yr aelodau cafwyd noson lwyddiannus dros ben.

· Mae'r Gymdeithas wedi dechrau ar ei gweithgareddau bellach. Cafwyd taith gerdded lwyddiannus a phleserus o gapel hanesyddol y Groeswen i Eglwysilan dan arweiniad John Albert Evans ddechrau Hydref . Oedfa i gefnogi elusen yr Eglwys ar nos Sul ola'r mis – gyda'r Parchg Jeff Williams yn rhoi tipyn o hanes y prosiectau fydd yn elwa o'n hymdrechion –ac yna, teithio i wahanol rannau o Gymru ar y nos Fawrth ddilynol wrth i nifer o'r aelodau sôn am eu "milltir sgwâr". Edrychwn ymlaen at y rhaglen ddiddorol y mae'r Gymdeithas wedi ei threfnu ar ein cyfer dros y misoedd nesaf.

## Tabernacl

**Cymdeithas Nos Fawrth.**

Mae rhaglen y Gymdeithas wedi cychwyn ar nodyn uchel wrth i Rob Nicholls drefnu bod tri o'n plith yn dewis eu hoff ddarnau cerddorol. Diolch i Graham Thomas, Mererid Jenkins a Hywel Jones am wneud. Bu'n noson ddifyr, ac nid oedd hyd yn oed y Mathemategwyr amlycaf yn ein plith yn medru cynnig yr ateb am y tebygolrwydd bod dau berson yn dewis yr un darn, ond felly y bu wrth i Mererid a Hywel ddewis 'Stesion Strata,' cân Tecwyn Ifan.

Noson hyfryd arall oedd cyflwyniad Huw a Siân Thomas o gerddoriaeth organ a thelyn. Roedd hi'n gyffrous gweld tair o ferched ifancaf yr eglwys yn chwarae'n gelfydd, sef Llinos Coe, Nia McLean a Hanna Williams. Cafwyd datganiadau arbennig gan bedair arall o ddisgyblion Siân, cyn mwynhau cyfraniad gwefreiddiol gan Alice Reed ar derfyn y noson. Wrth gwrs, roedd yr organydd o San Clêr yn wych fel arfer.

**Croeso adref**

Byddwn yn falch o groesawu pawb yn ôl o'i gwyliau, ond bu dychweliad Non a Gwenallt Rees yn un arbennig gan iddynt drefnu ein dolennu fel eglwys gyda chynulleidfa yr Eglwys Efengylaidd yn Masaru, Lesotho. Bydd angen i ni ddysgu mwy am y wlad a'i phobl, yr eglwys a'i chymdeithas yn ystod y misoedd nesaf. Cafodd Gwenallt gyfle i rannu rhai syniadau gyda ni ar fore Sul cyntaf mis Tachwedd, ond bydd digon o gyfle eto i rannu'r profiad a dyfnhau'r gefeillio yn ein profiad fel eglwys.



## Eglwys y Crwys

Erbyn hyn mae rhaglen cymdeithasau yr Eglwys wedi ei chyhoeddi a'r gweithgareddau perthnasol ar y gweill. Brynhawn dydd Mercher, Hydref 8fed, daeth aelodau Cylch y Chwiorydd a'r Froderfa at ei gilydd i wrando ar ein Gweinidog, y Parchedig Glyn Tudwal Jones yn hel atgofion am ei gyfnod fel golygydd y Goleuad. Bythefnos yn ddiweddarach aeth y ddwy gymdeithas ar daith undydd i ardal Brynbuga yng Ngwent. Cafwyd diwrnod diddorol yn ymweld â hen adeilad Llys Chwarter Sir Fynwy ac Eglwys y Santes Fair.

Ddydd Sul, Hydref 12, aeth rhieni a phlant yr Ysgol Sul ar daith gerdded yn ardal Cwmparc ym mhen uchaf y Rhondda Fawr. Dilynwyd llwybr troed mynyddig o dan gysgod y Graig Fawr a'r Graig Fach. Roedd briwsion y gwaith glo yn amlwg o dan ein traed, y cwmni yn ddifyr a'r cerdded yn magu archwaeth am ginio Dydd Sul yn yr awyr agored. Wedi'r picnic, cafwyd croeso ac oedfa fendithiol i'r plant a'r rhieni yng nghapel y Parc o dan arweiniad y Parchedig Evan Morgan.

Ganol mis Hydref aeth nifer dda o aelodau'r Eglwys a chyfeillion ar daith pum niwrnod i'r Alban. Dinas Glasgow oedd y cyrchfan y tro hwn, ac oddi yno cafwyd cyfle i ymweld â Chaeredin, Loch Lomond a Lanark newydd.

Yn ystod y cyfarfod diolchgarwch a gynhaliwyd ar ddechrau mis Hydref, bedyddiwyd Lili Buddug, merch fach Huw a Lucy Lloyd. Yr oedd y rhan hon o'r gwasanaeth o dan ofal y Parchedig Lona Roberts, modryb i Huw ar ochr ei fam.

Mae'r Gymdeithas Ddrama eisoes wedi cychwyn ar ei gweithgaredd tymhorol a'r bwriad eleni eto yw cynhyrchu 'Panto' a'i lwyfannu yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn ar y 12fed o Ionawr. Yn y cyfamser, mae chwaraewyr Prifysgol Cymru Caerdydd yn defnyddio'r theatr ar gyfer eu cynyrchiadau hwy yn ystod tymor yr hydref.

Ar ddiwedd mis Hydref cafodd y Gymdeithas Ddiwylliannol noson werthfawr iawn yng nghwmni Leah Jones o Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Dewisodd Leah siarad am y prosiect hir dymor o ailadeiladu Eglwys Sant Teilo, Talybont ar dir yr Amgueddfa. Gwnaeth ddefnydd helaeth o'r taflunydd i ddangos y datblygiad o gam i gam, gwaith arbenigol iawn sy'n gofyn am fanylder a dyfalbarhad. Noson i'w thrysori yn y cof.

## Salem, Treganna

Mae tymor yr hydref yn mynd yn ei flaen o nerth i nerth a'r gwmniaeth ar ei hanterth!

Ddechrau Tachwedd, roedd yn hyfryd tystio i fedydd Cate Lloyd Hughes, chwaer fach Beca a merch Dylan a Mari.

Cafwyd oedfa hwyrol fendigedig yng nghwmni Merched Canna, gyda nifer o aelodau yn cyfrannu darlleniadau a myfyrdodau, diolch i bawb a gymerodd rhan.

**Clwb y Bobl Ifanc**

Aeth Clwb y bobl ifanc i'r sinema a bu'r criw yn ddygn yn codi nawdd ar gyfer yr ymdrech fawr o denis bwrdd drwy'r nos - apel arbennig y bobl ifanc i godi arian i elusen o'u dewis. Mwynhaodd Cymdeithas y Gadwyn ymweliad a"r Theatr Newydd i weld cynhyrchiad o "Dan y Wenallt".

Mae'n debyg fod y clwb bobl ifanc wedi codi ymhell dros £700 i Apel plant Mewn Angen - llongyfarchiadau gwresog ar godi nawdd mor effeithiol.

# Calendr y Dinesydd

**(Mae Calendr y Dinesydd hefyd ar wefan Menter Iaith Caerdydd: http://www.mentercaerdydd.org/cymraeg/digwydd.htm)**

**Llun, 1 Rhagfyr**
Taith yr Academi: 'The Adulter's Tongue.' Elin ap Hywel, Iwan Llwyd ac Emyr Lewis yn darllen cerddi o'u gwaith a Robert Minhinnick yn cyflwyno ei gyfieithiadau Saesneg ohonynt, ynghyd â thrafodaeth ar gyfieithu llenyddol yng Nghymru heddiw. Yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter am 7.30 p.m. Mynediad: £3.

**Llun, 1 Rhagfyr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf, am 7.00 p.m. ar gyfer 7.30 p.m. Siaradwr gwadd: Nia Parry, cyflwynydd 'Welsh in a Week' a 'cariad@iaith'. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Tony Couch ar 029 2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk

**Gwener, 5 Rhagfyr**
Cymrodorion Caerdydd: 'Rhamant y Ffordd Haearn yng Nghymru.' Sgwrs (gyda lluniau) gan Gwyn Briwnant Jones, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.15 p.m.

**Gwener, 5 Rhagfyr - Sadwrn, 6 Rhagfyr**
Bara Caws yn cyflwyno 'Dulce Domum' gan Valmai Jones yng nghanolfan Chapter, Treganna am 8.00 p.m. Tocynnau: 029-2030-4400.

**Mawrth, 9 Rhagfyr**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Croeso i'r Nadolig yng nghwmni Hywel Gwynfryn, yn Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Gwener, 12 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Noson Nadoligaidd yng nghwmni Côr Hamdden Caerdydd (Arweinydd: Eilonwy Jones), yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Casgliad at achos da.

**Gwener, 12 Rhagfyr**
Yr Academi yn cyflwyno sioe farddonol newydd, 'Un Cês a Sawl Lodes Lên', yng Nghlwb Ifor Bach am 7.00 p.m. Y beirdd fydd Mererid Hopwood, Sian Northey, Karen Owen, Nici Beech, Fflur Dafydd, Gwyneth Glyn, Nia Môn ac Arwyn Groe. Pris tocyn: £4. Manylion pellach: 029-2047-2266.

**Llun, 15 Rhagfyr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Cinio Nadolig, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 1.00 p.m.

**Llun, 15 Rhagfyr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Boole i'r Adwy.' Sgwrs gan Neville Evans ac aelodau eraill o'r Gymdeithas, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 16 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Rhaglen Nadoligaidd dan ofal y Cymrodorion a Merched y Wawr, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mercher, 17 Rhagfyr**
Cymdeithas Ty'r Cymry, 11 Heol Gordon: Parti Nadolig, am 7.00 p.m.

**Mercher, 24 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Oedfa Gannwyll dan ofal Gwenda a Rhys Morgan, ym Methel, Rhiwbina, am 11.30 p.m.

**Sul, 4 Ionawr**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Plygain yng nghapel Bethesda'r Fro am 3.00 p.m.

**Iau, 8 Ionawr**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00 p.m. ar gyfer 7.30 p.m. Noson dan ofal Siân Thomas. Manylion pellach: 2065-7730 neu 2062-4878.

**Gwener, 9 Ionawr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan Mrs Gwyneth Briwnant-Jones, yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m.

**Sadwrn, 10 Ionawr**
Cwmni Theatr Maldwyn yn cyflwyno 'Ann!' gan Linda Gittins, Derec Williams a Penri Roberts, yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd. Tocynnau: 029-2087-8444.

**Sul, 11 Ionawr**
Cyngerdd i ddathlu pen-blwydd y cyfansoddwr Karl Jenkins yn Neuadd Dewi Sant. Dau o gorau'r brifddinas, Côr Caerdydd a Chantorion Serendipity, yn ymuno â chorau eraill, unawdwyr a Cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru mewn perfformiad o'r 'Offeren Heddwch' gan Karl Jenkins. Bydd Catrin Finch a Elinor Bennett yn perfformio 'Tros y Garreg', consierto i ddwy delyn gan Karl Jenkins, yn yr hanner cyntaf. Tocynnau: 029-2087-8444.

**Gwener, 16 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: ' "Cudd Fy Meiau": Blwyddlyfr Ysbrydol Pennar Davies'. Sgwrs gan y Parch. W. Eifion Powell, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Llun, 19 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Bore coffi yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 10.30 a.m. Sgwrs ar gwiltio gan Mari Rogers.

**Llun, 19 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Ymweliad ag India.' Sgwrs gan y Parch. Glyn Tudwal Jones, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Llun, 19 Ionawr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Aur, Thus a Myrr: Cemegolion Gwrth-Falwod.' Darlith gan yr Athro Delme Bowen (Prifysgol Caerdydd), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 20 Ionawr**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Hawl i Holi, yn Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m. Y panel: Aled Edwards, Emrys Evans, Rhiannon Lloyd a Helen Prosser. Cadeirydd: Rhun ap Iorwerth.

**Mawrth, 20 Ionawr**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: 'Dos Ben Llestri.' Sgwrs gan Eleri Rogers, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mercher, 21 Ionawr**
Cymdeithas Ty'r Cymry, 11 Heol Gordon: Sgwrs ddarluniadol ar y testun gwyliau hynod gan Mrs Ann Williams, am 7.00 p.m.

**Iau, 29 Ionawr**
Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays: Darlith ar Ddiwygiad 1904 gan y Parch. Ddr Noel Gibbard, am 7.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 31 Ionawr**
Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays: Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00, yn cynnwys sgwrs gan Helen Gibbard ar y testun 'Digwyddiad a Hanner'. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 3 Chwefror**
Cymdeithas Hanes Cymru, Prifysgol Caerdydd: Darlith gan yr Athro Colin H. Williams (Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd) ar 'Y Cymry Anweledig' yn Ystafell 2.03, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.15 p.m.

**Mawrth, 3 Chwefror**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Croesawu Cymdeithas Eglwys Ebeneser, gydag aelodau'r ddwy eglwys yn cyfrannu at yr adloniant a'r hwyl, yn Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Gwener, 6 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd: 'Atgofion Llyfrgellydd.' Sgwrs gan Brynmor Jones o Lyfrgell Ganolog Caerdydd, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 7.15 p.m.

**Llun, 9 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Llundain a . . .' Sgwrs gan Eirwen Jones, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Gwener, 13 Chwefror**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan y Parch Owain Llyr Evans, yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m.

**Llun, 16 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cyngerdd gan Aelwyd CF1, ym Methel, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

Llun, 16 Chwefror
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Sgwrs gan Dr Rhodri Clwyd Griffiths (Llanarthne) ar Ardd Fotanegol Cymru, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 17 Chwefror**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: 'Hen Feddyginiaethau.' Sgwrs gan Hannah Roberts, yn Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 17 Chwefror**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson gerddorol yng nghwmni Euros Rhys, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mercher, 18 Chwefror**
Cymdeithas Ty'r Cymry, 11 Heol Gordon: Sgwrs ar y testun 'Sioni Wynwns' gan Gwyn Pritchard, am 7.00 p.m.

**Gwener, 20 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Perthynas Gecrus: Iolo Morganwg a'i Gydweithwyr yn Llundain.' Sgwrs gan Glenda Carr (Bangor), yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Iau, 26 Chwefror**
Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays: Darlith gan Dr Christine James, 'Gwenallt: Bardd Cristnogol', am 7.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.

***Anfonwch fanylion at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).***

# Bro Morgannwg

## CROESAWU STAFF NEWYDD

Penodwyd 7 o athrawon newydd ar gyfer 2003/04:

| | |
|---|---|
| Mrs Ffion Harries | Saesneg |
| Mrs Meleri Cole | Drama |
| Mrs Sioned Harold | Ieithoedd Tramor Modern |
| Mr Gwion Dafydd | Mathemateg |
| Miss Catherine Goss | Mathemateg/Gwyddoniaeth |
| Mr Myrddin Davies | Daearyddiaeth |
| Ms Sian Rogers | Technoleg |

Yn ogystal, fe ymunodd Ms Helen Thomas fel Arweinydd Pwnc Saesneg ym mis Mehefin.

Bu newid yn y swyddfa hefyd wrth i Mrs Louise Hawkins a Mrs Lisa Jones ymuno â'r tîm gweinyddol, ac fe benodwyd Mrs Llinos Owen fel technegydd i gynorthwyo'r adran Wyddoniaeth.

Croeso cynnes iawn iddyn nhw i gyd.





## ADEILADAU

Cwblhawyd Cam 5 o'r gwaith adeiladu arfaethedig ac fe agorwyd y bloc newydd sbon yn swyddogol ar 29 Medi gan Dr John Marek AC, Is-Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd Cyngh. Jeffrey James, Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg, hefyd yn bresennol.

Dyma'r ychwanegiad mwyaf sylweddol i adnoddau'r ysgol hyd yn hyn, gydag wyth o labordai ar gyfer yr adran Wyddoniaeth ar y llawr gwaelod ac ystafelloedd dysgu ar gyfer yr adrannau Cymraeg a Saesneg ar y llawr cyntaf. Mae'r atriwm a'r galeri sy'n cysylltu'r bloc newydd â gweddill yr ysgol hefyd yn gaffaeliad gwerthfawr, fel gofod ar gyfer derbyniadau a digwyddiadau o wahanol fathau.

# Mynydd Bychan Tymor yr Hydref

### Croesawu

Braf oedd croesawu aelod newydd o staff yr ysgol ym mis Medi. Yn dilyn ymadawiad Mr. Dylan Evans, a dderbyniodd swydd dirprwy yng Nghaerffili, apwyntiwyd Miss Joanna Davies yn athrawes Blwyddyn 2.
Daw Joanna yn wreiddiol o'r Gwendraeth ac fe ddymunwn pob hapusrwydd iddi yn ei swydd newydd.

### Cynhaeaf

Cynhaliwyd ein gwasanaeth diolchgarwch ar Hydref 8fed ac eleni penderfynwyd codi arian tuag at elusen Barnados. Daeth Mrs. Iris Williams atom i siarad am y gwaith da sy'n cael ei gyflawni yng Nghymru yn enw Barnados. Casglwyd dros 330 o bunnoedd gan blant yr ysgol. Daeth plant y blynyddoedd cynnar â ffrwythau a llysiau i'r ysgol ac yna fe'u dosbarthwyd yn Nhŷ Gobaith, lloches i'r di-gartref yn y ddinas.

### Criw Clên

Fel rhan o'n cynlluniau Addysg Bersonol a Chymdeithasol rydym wedi sefydlu "Criw Clên", sef criw o ddisgyblion o Flwyddyn 6 yr ysgol, i fod yn gyfrifol am ddiogelwch a hapusrwydd gweddill y disgyblion yn ystod eu hamseroedd chwarae. Bwriad y cynllun yw rhoi cyfle i blant Blwyddyn 6 i fod yn rhan o brosesau rheolaeth yr ysgol. Cafodd y plant gyfle i geisio am swydd, mynd i gyfweliad a chafodd y rhai llwyddiannus eu hapwyntio yn aelodau o'r criw. Maent wedi derbyn hyfforddiant gan Mrs Sian Rolph a Mrs Lisa Powell a hyd yn hyn mae'r system yn gweithredu'n hynod effeithiol.



# Glantaf

## Chweched Dosbarth Glantaf o Flaen eu Gwell

Ar ddydd Sadwrn 8 Tachwedd roedd 12 o fyfyrwyr Blynyddoedd 12 a 13 Glantaf yn Llys y Goron, Caerdydd yn cystadlu mewn cystadleuaeth Achos Llys Ffug. Roeddent yn amddiffyn disgybl disglair a gyhuddwyd o ddwyn cyfrifiadur o'i ysgol ac yn erlyn protestiwr amgylcheddol a gyhuddwyd o ddifrodi bwyty "McBurgers". Bu'r tîm yn ymarfer eu hachosion drwy'r tymor gan adeiladu eu hachosion a pharatoi eu llygad-dystion ar gyfer eu croesholi. Hwyl y gystadleuaeth oedd dod â'r cymeriadau yn fyw, roeddent yn amrywio o lygad-dystion pedantig i rai addfwyn a diniwed a fyddai'n ei gwneud hi'n amhosibl i reithgor eu canfod yn euog. Mae'r gystadleuaeth a drefnir yn flynyddol gan "Y Sefydliad Dinasyddiaeth" yn gyfle i bobl ifanc gael profiad uniongyrchol o'r System Gyfiawnder Gyfreithiol gyda phob rôl mewn achos llys yn cael ei chwarae, o'r clerc i'r bargyfreithiwr. Mae'r rownd derfynol yn yr Old Bailey ym mis Mawrth.

## Ffug Gynhadledd y Cenhedloedd Unedig

Cafodd dosbarthiadau chwech o ysgolion Cymraeg y De Ddwyrain y cyfle i uno mewn diwrnod o drafod a negydu. Cynrychiolai Glantaf farn wleidyddol yr UDA, Brasil, Twrci ac OXFAM. Cafwyd cryn ddadlau ar y ddau destun sef Ffoaduriaid ac Argyfwng Dŵr. Trefnwyd y diwrnod eto eleni gan Ethni Jones o Gymdeithas y Cymod. Y Llywydd oedd Dr Non Gwilym o gwmni Strata Matrix. Cyflwynwyd tlws Siarad Cyhoeddus Cymdeithas y Cymod eto eleni i Lantaf.

## Cystadleuaeth Tîm Siarad Cyhoeddus y Roteri

Llongyfarchiadau i'r tîm Siarad Cyhoeddus - Mari Thomas, Rhys Meggy a Rhys ab Owen - ar ennill eu ffordd drwodd i rownd nesaf y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau hefyd i Rhys Meggy am ennill gwobr "Siaradwr y Noson" ac i Mari am ennill gwobr "Cadeirydd Gorau'r Noson". Pob lwc iddynt yn y rownd nesaf.

## Taith yr Adran Hanes i Wlad Belg

Fel grwp o haneswyr ifanc, brwd, aethom ar drip i Wlad Belg i ymweld â Lepers a Vimy Ridge - ardaloedd a gafodd eu heffeithio yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Er taw taith hir a blinedig oedd hi, roedd digon o adloniant i'w gael ar y bws, yn enwedig wrth ganu dan arweiniad Tecwyn a Daniel! Ar ôl cyrraedd Lepers, cawsom ymweld ag amgueddfa Cloth Hall i weld artiffactau, lluniau a ffilmiau. Yna cawsom ein tywys ar daith o gwmpas beddau milwyr y rhyfel gan gynnwys bedd Hedd Wyn. Roedd hyn yn drist o feddwl am y cerddi coffa amdano a'r cerddi a ysgrifennwyd ganddo ac a astudiwyd gennym yn gynharach yn y flwyddyn. Roedd meddwl am yr holl ddynion ifanc a frwydrodd a cholli eu bywydau ar y tir ble'r oeddem ni'n sefyll yn swreal. Taith fer at y ffosydd oedd nesa, cyfle i gael gweld amodau y dynion a frwydrodd ar y linell flaen. Yma, profodd Mr Jones faint o ddyn ydoedd pan fethodd gerdded drwy'r ffos dywyll ar ei ben ei hun! Bu'r daith yn agoriad llygad i mi fedru gwerthfawrogi faint effeithiau rhyfel. Rwy'n falch fod Cloth Hall a Vimy Ridge yn bodoli er mwyn i bobl ddeall pa mor anhygoel o ddewr oedd y milwyr ifanc. Diolch, Mr Walpole, am drefnu trip mor llwyddiannus!

**Siân Burgess**

## Trip Blwyddyn 10 i Storey Arms

Roedd y trip i Storey Arms yn brofiad arbennig o dda. Am wythnos, cafwyd cyfle i ddod i adnabod pawb yn well a chael llawer o hwyl. Cymerwyd rhan mewn nifer o weithgareddau a oedd yn brofiadau newydd i lawer ohonom fel ogofeua, canwio a cherdded y ceunant. Wrth wneud y gweithgareddau roedd yn rhaid i ni weithio fel tîm ac wrth wneud hyn roedd yn haws llwyddo yn y tasgau a mwynhau. Fe wnaethom hefyd weithgareddau yn y nos yn y tywyllwch fel croesi'r rhostir gan ddefnyddio cwmpawd, a chwblhau taith rhaff yn y goedwig. Dysgais sgiliau newydd oherwydd hyn. Roedd hi'n wythnos wych a chefais fwynhad a phrofiadau newydd o'r daith.

**Eleri Jones**

## Trip Blwyddyn 7 i Langrannog

Yn ddiweddar aeth criw o blant Blwyddyn 7 ar gwrs iaith i wersyll yr Urdd Llangrannog, gyda rhai aelodau o'r chweched, yn ogystal â'r athrawon. Roedd cyfle i'r plant ddilyn amserlen eang o weithgareddau o sgïo i nofio, o ferlota i wibgartio, yn ogystal ag astudio hanes chwedlau'r Mabinogi. Roedd yn gyfle i ddisgyblion newydd Blwyddyn 7 gymdeithasu â'i gilydd a dod i wneud ffrindiau newydd trwy gyfrwng disgo, cwis a thwmpath dawns. Cafwyd amser bythgofiadwy yno.

# Bwrlwm Bro Eirwg

· Yn ystod gwyliau'r Haf, bu llawer o blant yr ysgol yn cefnogi menter llyfrgelloedd Caerdydd trwy ddarllen nifer helaeth o lyfrau Cymraeg a Saesneg. Braf oedd cydnabod eu llwyddiant yn ein gwasanaeth Canu Clod diweddaraf twy eu gwobrwyo â thystysgrifau a medalau hyfryd. Y newyddion calonogol yw eu bod yn ysu i barhau i ddarllen er fod y gystadleuaeth wedi gorffen! Da iawn chi!

· Mae'r ysgol wedi cefnogi'r Ŵyl Heddwch ers blynyddoedd ac eleni buom yn fwy llwyddiannus na'r arfer wrth i ni ennill dwy wobr gyntaf am farddoniaeth Gymraeg a Saesneg. Gan fod cymaint o bwyslais ar gyflwyno neges heddwch yn ein byd ni heddiw, braf yw gweld bod ein pobl ifanc yn medru mynegi eu barn mewn ffordd mor glir, a hynny o'r galon.

· Cynhaliwyd ein gwasanaeth Diochgarwch ar ddiwedd mis Hydref wrth i blant o'r Feithrin hyd at Flwyddyn 6 ddiolch am yr hyn sydd gennym. Roedd y plant yn awyddus i roi'r casgliad o'r gwsanaeth eleni tuag at brynu cliniadur i un o blant yr ysgol sydd yn dioddef o anhwylder ar hyn o bryd. Daeth Jack i'r ysgol i dderbyn ei anrheg ac mae'n wych ei weld yn cael cymaint o bleser allan ohono.

· Bu rhai o blant yr ysgol yn ddigon lwcus i ymweld â gwesty Bro Morgannwg yn ddiweddar er mwyn cystadlu mewn cystadleuaeth rygbi Tag. Llwyddodd y tîm (a oedd yn cynnwys tair merch) i chwarae'n wych ac fe enillon nhw dystysgrifau arbennig fel atgof o'u diwrnod.

· Wrth gerdded i mewn i neuadd yr ysgol ar y 14eg o Dachwedd fe allech daeru bod Harry Potter yn y cyffuniau! Roedd Bob Bird o ganolfan Adar Ceredigion wedi dod â thylluanod ac adar ysgyfaethus eraill i'r ysgol er mwyn i ni ddysgu sut y mae adar tebyg yn byw. Bu'r profiad o fod mor agos at yr adar hardd, sydd fel arfer yn byw yn wyllt yn un gwych ac fe ddysgodd y plant a'r athrawon cryn dipyn wrth wrando ar Bob yn dweud eu hanes. Rhaid cyfaddef mai dim ond y plant oedd yn ddigon dewr i ddal yr adar! Esgus yr athrawon oedd eu bod yn gorfod tynnu'r lluniau!!

## Mae'r tymor wedi prysur fynd heibio.

Mae tipyn o amser wedi mynd heibio ers i mi roi rhywfaint o hanes y Cwmni Dawns yn y *Dinesydd* a dim ond ychydig o nodiadau yw y rhain i ddweud wrthoch chi ein bod ni'n dal yn fyw ac yn cicio'n coesau.

Aeth yr Haf heibio ar ras wyllt. Y Cwmni yn cystadlu yn 'steddfod Meifod yn y gystadleuaeth dan 25 (Peidiwch â chwerthin, doeddwn i ddim ar y llwyfan), dod yn ail er mawr gam yn ôl rhai, Elgan yn dod yn drydydd anrhydeddus iawn yn y clocsio a phedair o'r merched yn cystadlu yn y pedwarawd clocsio. Tadau Talog eisiau encôr o'r rhain yn y rhagbrawf! Wn i ddim pam! Wedi dyddiau hwylus iawn ym Meifod draw i Weriniaeth Tsiec i ddawnsio mewn gwyl yn Pizec. Tref rhyw awr a hanner o Prague. Gwyl penwythnos ynghanol Hwngariaid, Sipsiwn, dawnswyr Tsiec a'r Swistir a phawb yn cymysgu fin nos i ganu a dawnsio. Tipyn o agoriad llygaid oedd gweld rhai o'n merched ifanc ni yn dawnsio gyda gwylltineb y bois o Hwngari. Allan o'r daith daeth gwahoddiad i fynd i Hollywood am fis. Gwych i gael y gwahoddiad ond go brin y bydd cyfle i deithio yn yr Amerig am fis, yng nghanol mis Ebrill!

Mae tymor y Fari wedi cyrraedd unwaith eto. Allan i'r Ŵyl Nadolig yn Sain Ffagan ac wedyn galwadau tymhorol tan Nos Ystwyll. Mae joio'n waith caled. Os oes rhywun am iddi alw cofiwch ddod i gysylltiad â'r Ostler, neu unrhyw un o aelodau'r Cwmni Dawns.

Mae'r flwyddyn newydd yn barod yn dechrau llenwi. Taith i wlad Belg yn y dyfodol agos a thaith i Kosovo i geisio tynnu rhaniadau at ei gilydd trwy ddawns. Byddai'n hwyl gweld plant Serbia a Chroatia yn cyd-ddawnsio Cylch y Cymry. Efallai y cawn ni'r fraint o ail gynnau fflam y ddawns yno fel y gwnaethon ni gyda Cossacks Lugansk.

Rhaid gorffen neu fydd dim lle ond nodyn cyn gorffen. Diolch am nodi ein gwaith yn y steddfod yn Dinesydd mis Hydref ond rhaid i mi gyfaddef dw i ddim yn arwain y Cwmni, dw i ddim hyd yn oed ar y pwyllgor. Chris sy'n arwain y Cwmni ac wedi gwneud hynny ers y dechrau nôl yn y chwedegau ond diolch am y geiriau caredig.

**Rhodri Jones (Yr ostler)**

## Panel yr Ifanc

Cynhaliwyd cyfarfod ola'r flwyddyn o Gyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd - Panel yr Ifanc - ym Methel, Rhiwbeina. Gyda'r Parch Gareth Rowlands yn llywyddu cafwyd noson ddiddool gyda'r bobl ifanc yn ateb yn ddeallus i rai o gwestiynau anodd y dydd. Llywydd y flwyddyn nesaf fydd y Parch Glyn Tudwal Jones a Mrs Rhian Ruddock yn parhau fel ysgrifennydd.



## ANRHYDEDD I WYDDONYDD O GYMRO

Ym mis Mehefin eleni agorwyd Canolfan Ymchwil Hydrocolloid Glyn O. Phillips yn Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru [NEWI] yn Wrecsam. Cwmni San Ei-Gen o Japan sy'n ariannu'r fenter, a hynny er mwyn cydnabod gwaith blaengar yr Athro o Gymro ym myd biowyddoniaeth.

Iddo fe'n bersonol y cynigiwyd y cyfle i sefydlu Canolfan Ymchwil. Ei ddewis e oedd ei lleoli yn NEWI. Pam hynny, tybed? Wel, bu'n Brifathro ar y coleg hwnnw am flynyddoedd - ac efallai bod gan agosrwydd y Coleg at Rosllannerchrugog, bro ei febyd, rywbeth i'w wneud â'i benderfyniad hefyd!

Hedfanodd Llywydd San Ei-Gen, Takashige Shimizw, o Osaka yn un swydd ar gyfer yr achlysur. Yn y llun fe'i gwelir e a Dr. Glyn O. Phillips yn lansio'r ganolfan trwy forthwylio casgen o Sake ar agor - dull traddodiadol Japan o ddod â lwc i'r cynllun.




Un o ddinasyddion Caerdydd yw Dr. Phillips ers blynyddoedd, bellach, ond er iddo ymddeol yn swyddogol, mae mor brysur ag erioed. Yn ogystal â rhoi pethau ar waith yn y Ganolfan newydd, bu'n cynnal gweithdy yn Wrecsam ddechrau mis Medi ar 'safonau ymbelydredd wrth ddiheintio meinwe dynol' a'r defnydd meddygol sydd i hynny. Fis Tachwedd bydd yn cyflwyno papur ar y testun hwnnw yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas Banciau Meinwe Dynol Ewrop yn Bruges. Ym mis Hydref bu yn Cleveland, yn cymryd rhan mewn cynhadledd ar Hyluronan - un arall o'i ddiddordebau. Taith i Melbourne wedyn, fis Awst nesa, i roi papur ar Gum Arabic, sef trydedd cainc ei ddiddordebau!

A beth yw ymateb Mrs. Phillips i hyn i gyd? Wel, balchder, wrth gwrs - ond mae wedi penderfynu palmantu'r lawnt yng ngardd eu cartref yn Radur, meddai!

Balchder a deimlwn ninnu, hefyd, yn ei lwyddiant ar lwyfan byd-eang, a dymunwn llond y gasgen o lwc i Ganolfan Ymchwil Glyn O. Phillips yn Wrecsam.



## Noson Blasu Gwin


Meddwl am brynu gwin a Champagne ar gyfer y Nadolig? Os felly, mae nifer cyfyngedig o docynnau ar gael am £12 yr un i'r Noson Blasu Gwin ar Ragfyr y 1af.

## Bore Coffi i Ddysgwyr



O Ddydd Mawrth, Tachwedd y 18fed ymlaen, fe fydd Menter Caerdydd yn cynnal boreau coffi yng Nglwb y Cameo, Pontcanna rhwng 10 ac 11yb. Cyfle gwych i Ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch hamddenol braf

## Hwyl yr Ŵyl! Gŵyl Aeaf Caerdydd




Fel rhan o Ŵyl Aeaf Caerdydd o flaen Neuadd y Ddinas eleni, mae Menter Caerdydd yn bwriadu cynnal sesiynau Hwyl yr Ŵyl!! Fe fydd llond lle o adloniant Cymraeg, gan gynnwys Côr Plant Caerdydd, Disco 007, Côrdydd, Martyn Geraint, Sali Mali a Nia a Now o Blaned Plant!! Fe fydd Hwyl yr Ŵyl yn cael ei gynnal Ddydd Llun, Rhagfyr y 1af, Rhagfyr yr 8fed a Rhagfyr y 15fed.

Am fanylion am un o'r gweithgareddau uchod cysylltwch ag Angharad Thomas yn swyddfa'r Fenter ar 029 20 565658 neu angharadthomas@mentercaerdydd.org
**www.mentercaerdydd.org**



*Gwersi Sbaeneg Menter Caerdydd*



*Cynllun Gofal Hanner Tymor Mwynhau yn Ysgol y Berllan Deg*

### Digwyddiadau Wythnosol Menter Caerdydd

| Dyddiad | Amser | Beth | Ble |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 10.30 | CRICC - Clwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd i blant rhwng 7 - 14 mlwydd oed | Maes y Deiamwnt, Cae Cardiff High School Old Boys, yn yr Eglwys Newydd |
| Dydd Llun | 5.15 | Clwb Clocsio | Ysgol Pencae, Heol Gillian, Llandaf |
| Dydd Llun | 5 | Clwb Dawns ar gyfer plant Bl 2, 3, 4, 5 a 6 Arweinydd: Rachel Evans ac Elan Isaac | Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Pontcanna |
| Dydd Llun | 7.00 | Gwersi Sbaeneg trwy gyfrwng y Gymraeg | Ysgol Gyfun Glantaf |
| Dydd Llun | 6.30 | Clwb Rhedeg Menter Caerdydd. Croeso i bawb. Llwybrau a phellter yn ôl gallu Rhedwyr. | Tu allan i Ystafelloedd Newid Caeau Pontcanna |
| Dydd Mawrth | 4.30 | Clwb Jiwdo. Plant Blwyddyn 1,2 a 3 Hyfforddwyr: Ysgol Jiwdo | Ysgol Pencae, Gillian Road, Llandaf |
| Dydd Mawrth | 7.00 | Clwb Nofio ar gyfer plant Bl 2,3,4,5 a 6 Hyfforddwyr Darren Jenkins a Luned Clement | Pwll Nofio Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd |
| Dydd Mawrth | 6.15 | Clwb Jiwdo. Plant Blwyddyn 4 ,5 a 6 Hyfforddwyr - Ysgol Jiwdo | Ysgol Pencae, Heol Gillian, Llandaf |
| Dydd Mawrth | 8.00 | Gwersi Nofio i Oedolion (I ddechreuwyr a nofwyr cyson) | Pwll Nofio Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd (Ysgol Isaf) |
| Dydd Mercher | 6.30 | Clwb Rygbi Merched Menter Caerdydd | Maes y Deiamwnt CHOB |
| Dydd Iau | 3.00 | Grwp Galw Heibio - CYD i ddysgwyr a Chymry Gymraeg | Lan Stâr yn nhafarn A Shot in the Dark, Lôn y Plwca, Y Rhath |
| Dydd Iau | 5.00 | Clwb Celf ar gyfer plant blwddyn 2,3,4,5 a 6 Arweinydd: Megan Lloyd | Ystafell Gelf, Neuadd Llanofer, Romilly Road, Treganna |

Cysylltwch â 029 20565658 am wybodaeth bellach

## Côr Cochion Caerdydd - Rhodri Morgan yn dathlu'r Protestio




Rhodri Morgan, Elfyn Llwyd, Helen Mary Jones, Desmond Tutu, Neil Kinnock, Tyrone O'Sullivan - dyna rai yn unig o'r bobl sydd wedi cefnogi Côr Cochion Caerdydd dros y blynyddoedd. A ddydd Sadwrn Medi 13 cafwyd dathliad cofiadwy yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd i ddathlu 20 mlynedd ers sefydlu'r Côr ac i lansio llyfr newydd am hanes y côr, Stand Up and Sing!

Ymhlith y rhai oedd yn dathlu 20 mlynedd o ganu protest, Sosialaidd, roedd Rhodri Morgan, Prif Weinidog y Cynulliad, ei wraig Julie, a chyn-aelodau o'r côr, yn cynnwys gwleidyddion amlwg Plaid Cymru a'r Blaid Lafur.

Bu'n noson llawn nostalgia, dathlu a chanu - gyda chaneuon tebyg i 'All the Tories failed in Wales', 'Women of the Working Class' a 'You Can't Stop Here - Get Along - Move! Go! Shift!' ar gael i bawb ramantu yn eu cylch yn y llyfr, Stand Up and Sing! a gyhoeddwyd gan Y Lolfa.

Ugain mlynedd yn ôl y penderfynodd y criw ddod at ei gilydd i ddysgu a chyd-ganu caneuon Sosialaidd, ac ers hynny bu'r côr yn teithio a phrotestio'n gyson yn erbyn rhyfeloedd ac anghyfiawnder cymdeithasol ledled y byd. Mae'r gyfrol yn llawn straeon difyr am aelodau'r côr, yn cynnwys un am Helen Mary'n ceisio rhwystro cythrwfl mewn protest yn 1989 yn erbyn Toriaid ifainc a chefnogwyr Contras Nicaragua. A cheir hefyd lu o luniau, yn cynnwys un o'r Rhodri Morgan ifanc, sosialaidd.

Cafwyd geiriau o gefnogaeth i'r noson gan Elfyn Llwyd, AS Plaid Cymru, yn ogystal ag adloniant gan Dave Burns (o'r Henneseys) a Susan George. Rhai o'r unigolion a danysgrifiodd i'r llyfr oedd Eirug Wyn ASE, Leanne Wood AS, Neil Kinnock, Julie Morgan AS a Hywel Williams AS. Paratowyd y gyfrol gan Beatrice Smith, aelod o'r côr ers 1986 a pharatowyd y clawr gan yr artist Wendy Lewis.

**TRYDANWR**

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch


**Caerwyn Davies**

ar **029 20868208**

neu **07967 558664**

## Y Border Bach

gan Hwn a Hon



Mae Tachwedd a Rhagfyr yn gallu bod yn fisoedd reit llwm yn y border bach, felly mae'n dda dod ar draws planhigyn sy'n cael ei funud o ogoniant yn y cyfnod hwn. Planhigyn felly yw'r Arum italicum, sy'n perthyn i deulu'r lili. Mae'n cynhyrchu blodau gwyyn yn ystod yr haf, tebyg mewn ffurf i flodau lili'r Pasg. Yna bydd y blodau a'r dail yn mynd drosodd tua mis Awst gan adael coesau tew yn codi'n syth o'r pridd a pheli hirgrwn o aeron coch ar eu pennau. Tua mis Medi bydd y rheini'n diflannu hefyd a gallech feddwl bod y planhigyn wedi marw. Ond erbyn diwedd Hydref, pan fydd popeth arall yn gwywo a chrino o'i gwmpas bydd blagur newydd yn codi fel gwaywffyn o'r pridd ac yn agor i ddangos dail gwyrdd sgleiniog a ffurf nid anhebyg i darian hir. Ar y math 'marmoratum' mae marciau gwyn fel petai'n darian yn perthyn i ryw lwyth Affricanaidd. Mae'r dail yma yn para drwy'r gaeaf ac yn cyrraedd eu llawn dwf ym mis Ebrill pan fyddant tua throedfedd o uchder. Yna bydd y blodau yn ymddangos eto i barhau'r cylch.

Maent yn tyfu'n dda mewn mannau cysgodol o dan goed neu lwyni, ac yn orchudd da i'r pridd drwy'r gaeaf. Gallwch eu tyfu gyda phlanhigion sy'n hoffi'r un sefyllfa, megis teulu'r pulmoniria sydd yn blodeuo yn y gaeaf a'r gwanwyn cynnar.

Ond, wedi canmol y planhigyn, mae ganddo un anfantais, sef ei fod yn wenwynig, felly gwnewch yn siŵr bod neb yn cael eu temtio i fwyta'r aeron nag unrhyw ran arall ohono.

---

## CAERDYDD YN DATHLU PENBLWYDD KARL JENKINS



Erbyn heddiw, mae'r cerddor o Benclawdd, Karl Jenkins, yn un o'r cyfansoddwyr clasurol mwyaf enwog, mwyaf llwyddiannus, a'r un sy'n gwerthu fwyaf o recordiau. Yn Chwefror 2004 fe fydd Karl Jenkins yn dathlu ei benblwydd yn 60 oed. Fel rhan o'r dathliadau, cynhelir cyngerdd arbennig yn Neuadd Dewi Sant ar nos Sul, Ionawr 11eg 2004 lle y bydd Karl ei hunan yn arwain Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru, a phedwar o gorau cymysg gan gynnwys dau o'r brifddinas sef Côr Caerdydd a Chantorion Serendipity, mewn perfformiad o'r Offeren Heddwch.

Cywair a Chantorion John S Davies yw'r ddau gôr arall ac fe fydd Fflur Wyn, Leah-Marian Jones, Wynne Evans ac Owen Webb yn unawdwyr yn yr Offeren. Mae'r addasiad Cymraeg o A Mass for Peace gan Tudur Dylan Jones, ac mae cryno ddisg o'r gwaith wedi bod ar frig y siartiau clasurol ers mis Ebrill 2003. Yn Hydref 2003, 'roedd y gwaith yn rhif 1 yn siartiau cylchgrawn Classic fm. Cyfle prin felly i brofi perfformiad byw o'r gwaith yn y brifddinas. Bydd y noson hefyd yn cynnwys cerddoriaeth a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer y delynores ifanc ddawnus, Catrin Finch, gan gynnwys Tros y Garreg - Consierto i Ddwy Delyn lle y bydd Elinor Bennett yn ymuno â Catrin. Os am docynnau, cysylltwch â Neuadd Dewi Sant ar 029 2087 8444.

# Glantaf
## 200 yn dathlu'r 25

Chwarter canrif ers agor Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ymgasglodd bron i ddau gant o gyn-ddisgyblion a chyn-athrawon yn y brifddinas i ddathlu'r achlysur hanesyddol. Clwb Criced Morgannwg yng Ngerddi Soffia oedd y lleoliad ar gyfer y dathliad ar nos Sadwrn 25ain o Hydref eleni. Roedd croesdoriad o gyn-ddisgyblion yn bresennol, o'r cant namyn un ddechreuodd eu gyrfa yn ysgol gyfun Gymraeg gyntaf y brifddinas ym mis Medi 1978 i rai o'r cyn-ddisgyblion mwya diweddar i adael yr ysgol. Ynghyd â chael cwmni'r prifathro cynta, Mr Malcolm Thomas, a'i olynydd Mr Huw Thomas, braf hefyd oedd gweld nifer o athrawon o'r gorffennol a'r presennol yn ymuno yn y dathlu.

O'r dechrau un sicrhaodd pumawd jazz Not Now awyrgylch arbennig i'r noson wrth i rai hen ffrindiau ddod wyneb yn wyneb a'i gilydd am y tro cynta ers gadael yr ysgol. O Gaerdydd i Ddinas Powys, o Benarth i'r Barri a Bro Morgannwg roedd yno gynrychiolaeth gref o gyn-ddisgyblion o holl ddalgylch gwreiddiol yr ysgol.

Un o'r cyn-ddisgyblion cyntaf hynny yw'r aelod seneddol Ewropeaidd Eluned Morgan. Mewn araith ffraeth, amlinellodd rai o brofiadau ei chyd-ddisgyblion yn dechrau yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ym 1978. Ynghanol ei hatgofion diolchodd hefyd am y cyfle a'r sylfaen roedd Glantaf wedi ei ddarparu ar gyfer cynifer o bobl.

Troi at arwyddocâd logo yr ysgol wnaeth y cyn-brifathro Mr Malcolm Thomas yn ei anerchiad. Trwy ddewis porth hen adfeilion yr eglwys gadeiriol fel arwyddlun yr ysgol dywedodd mai'r gobaith oedd fod Glantaf wedi agor y drws i ddisgyblion mewn gwahanol feysydd ar hyd eu bywydau. Gerbron ystafell orlawn fe gyfeiriodd at y frwydr fu wrth sefydlu'r ysgol gyfun Gymraeg gyntaf yn Ne Morgannwg, fel oedd hi ar y pryd, a diolch am ymdrechion y rhai fu'n gyfrifol, yn rhieni, gwleidyddion ac unigolion i sicrhau parhad a thwf addysg Gymraeg yn yr ardal i'r dydd heddiw.

Disgo Ceri Morgan ddaeth â'r dathlu i ben gyda chyfle pellach i ddawnsio nôl i'r gorffennol gyda chyfuniad addas o gerddoriaeth gan grwpiau sefydlwyd yn yr ysgol, rhai fel U Thant, Gwefrau, Edrych am Julia a'r Crumblowers. Llwyddodd y brodyr Boore o'r Eglwys Newydd gloi'r noson yn eu ffordd ddi-hafal ac unigryw!.
Bum mlynedd ar hugain ers agor pennod newydd yn hanes addysg Gymraeg yn y brifddinas a'r fro braf oedd gweld cynifer o gyn-ddisgyblion yn cydnabod hynny â balchder. Fel y dywedodd Mr Malcolm Thomas ar y noson 'Ymlaen' yw'r nod o hyd!

O.N. Dymuna Non Jones, Siân Thomas, Siwan Kemp ac Eleri Morgan ddiolch i bawb gymerodd ran yn y noson, i'r bobl fu'n gwerthu tocynnau o flaen llaw, i'r rhai gyfrannodd wobrau a nawdd hael i'r dathliad ynghyd â staff y clwb criced am eu cyd-weithrediad parod.



Mr a Mrs Malcolm Thomas, Eluned Morgan ASE, Mrs a Mr Huw Thomas



Rhai o fechgyn 1979 - 1984/86


Sut fyddwch chi'n dathlu'r Flwyddyn Newydd eleni?

Ymunwch â'r

**Parti Calan**

yn

**Y Ffatri Bop**

ar gyfer

Adloniant - Bwyd - Diod

Bysiau o'ch ardal

8.30yh-1yb

**Adloniant a gofal i'ch plant mawr a bach**

(nifer cyfyngedig - archebwch eich lle nawr)

Mynediad trwy docyn yn unig - £10

Cysylltwch â Catrin -
01443 680900 / 07712 541702

S4C Avanti